



Ysgol Pentreuchaf

40. Polisi Cyffuriau

Nod

Darparu canllawiau clir i alluogi staff i ymateb yn sensitif a chadarn i ddisgyblion sydd â chyswllt mewn unrhyw ffordd gyda chyffuriau. At bwrpas y polisi hwn, diffinir 'cyffuriau' fel unrhyw sylwedd sy'n gallu newid cyflwr meddwl, perfformiad, cyfreithiol ac anghyfreithiol gan gynnwys tybaco a thoddyddion.

Canllawiau

1. Bydd y plant hynaf yn trafod materion iechyd megis smocio yr ysgol yn flynyddol drwy ymweliadau a gwersi penodol ABCh a Gwyddoniaeth.
2. Trwy drafodaethau gobeithiwn gynyddu dealltwriaeth disgyblion, trwy roddi ystyriaeth i gyflwyno gwybodaeth gywir a diweddar, cyfle i ystyried a chymharu agweddau a gwerthoedd pobl eraill, cyfle i ymarfer a datblygu eu sgiliau cymdeithasol a galluogi disgyblion i adnabod ffynonellau o gefnogaeth bersonol addas.
3. Dylai'r disgyblion gael eu haddysgu bod pob ffisig yn gyffur ond nad yw pob cyffur yn ffisig llesol, i wybod am wahanol fathau o foddion, a bod ar rai pobl eu hangen i ddilyn bywyd normal, i wybod fod gan dybaco, alcohol a chyffuriau eraill effeithiau niweidiol, i wybod sut i wneud penderfyniadau syml a gweithredu rhai technegau sylfaenol i wrthsefyll pwysau cyfeillion ac eraill.
4. Ceisio trefnu ymweliadau gan gwmnïau megis Paid Cyffwrdd, Dwêd.
5. Cynllunio gweithgareddau priodol fel rhan o'r Cynllun AbaCh.
6. Dylid hysbysu'r pennaeth ar unwaith os oes amheuaeth ynglŷn â phlentyn a chyffuriau.
7. Dylai'r pennaeth weithredu yn y lle cyntaf i sicrhau diogelwch holl blant yr ysgol, yna cysylltu gyda'r Awdurdod Addysg Lleol am gyngor yn ôl y sefyllfa dan sylw.

Casgliad

Mae'n holl bwysig ein bod yn sicrhau diogelwch ein plant, yn ceisio eu hannog i ymwrthod â chyffuriau, ac nad ydym ar yr un pryd yn eu gwneud yn chwilfrydig, na chodi ynddynt yr awydd i ddarganfod effeithiau sylweddau drostynt eu hunain. Rhaid ymateb ar fyrder i unrhyw achos sy'n codi.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____